

Cwpan Efe Pêl-droed a Phêl-rwyd

Llai na phythefnos i fynd!

Cynhelir noson bêl-droed 5-yr-ochr ar gyfer plant oed cynradd (Blwyddyn 3–6) ar gae Ysgol Gynradd Llanrug, nos Wener, Mehefin 27. Dechreuir am 6.00 o'r gloch, a daw'r chwarae i ben erbyn 9.00 o'r gloch.

Dyma fydd y pedwerydd tro i ni gynnal y gystadleuaeth ar gyfer ysgolion Sul y fro. Mae croeso i fechgyn a genethod gymryd rhan eleni eto.

Gobeithiwn allu cynnal cystadleuaeth bêl-rwyd i enethod blwyddyn 3–6 yr un noson noson ar fuarth yr Ysgol.

Eleni eto, bydd egwyl fer yn ystod y noson er mwyn rhoi cyfle i'r plant a'r gynulleidfa glywed neges syml am y Ffydd.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mehefin 15

10.00 a.m. - Oedfa Deulu

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mehefin 22

10.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Miss Eleri Jones

Mehefin 29

10.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

Rhowch wybod i Andrew os bydd tim o'ch Ysgol Sul yn cymryd rhan er mwyn iddo allu trefnu'r gemau.
Ffoniwch
0792 9916181 neu anfon e-bost at:
gosodcoeden@hotmail.com

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Mehefin 18: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth.

Dydd Sul, Mehefin 22: Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a gwasanaeth yng ngofal Miss Eleri Jones am 5.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fercher, Mehefin 18: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth.

Dydd Sul, Mehefin 22: Gwasanaeth Teulu am 10.30 o'r gloch ac oedfa dan ofal y Gweinidog am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mehefin 22: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Mehefin 15

10.00 a.m. - Y Parchg Hugh Pritchard

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Hugh Pritchard

Mehefin 22

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mehefin 29

10.00 a.m. - Mr Andrew Settatee

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Mr Dewi Jones

4 ...

3 ...

2 ...

1 ...

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 596 – Dydd Sul, 15 Mehefin, 2014

Wedi'r Pentecost

Cofio a dathlu'r Sulgwyn a wnawn ni, er bod y sylw a roddwn i'r Wyl ac i'r digwyddiadau mawr yn Jerwsalem pan dywalltwyd yr Ysbryd ar ddisgyblion yr Arglwydd Iesu Grist yn amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn. Mater arall yn llwyr yw profi unrhyw beth tebyg i'r hyn a brofwyd gan Simon Pedr a'r lleill.

'Beth wyddom am yr Ysbryd yn symud mewn diwygiad yn ein plith? Faint wyddom am yr Ysbryd yn ein cyffroi i gyhoeddi'r Efengyl yn eofn? Beth wyddom am yr Ysbryd yn cynhesu'n calonnau wrth i ni glywed y gwirionedd am Iesu Grist? Ceisiwn o'r newydd yr Ysbryd a'i oleuni a'i nerth.' Dyna a ofynnwyd ar ddiwedd yr erthygl yn Gronyn y Sul diwethaf, ac mae'n rhaid i mi ateb y cwestiwn yn onest a dweud mai ychydig iawn a wn i am y pethau hyn.

Gwelwyd pethau mawr ar Ddydd y Pentecost. (Ie, Pentecost, sylwch ac nid Petecost fel y gwelwyd ar dudalen flaen Gronyn y Sul diwethaf – camgymeriad oedd hwnnw, wedi i mi gopïo'r llun heb sbïo'n ddigon manwl arno). Tafodau tân, sŵn fel gwynt nerthol yn rhuo a phobl yn siarad ieithoedd nad oedden nhw i fod i'w gwybod: dyna rai o'r pethau anghyffredin hynny. Ond nid dyna'r pethau yr ydym ni i'w ceisio wrth feddwl am y Sulgwyn a'r hyn a'i dilynodd. Fe esgorodd digwyddiadau mawr y Sulgwyn ar ddau beth ym mhrofiad y disgyblion hyn: cyhoeddi Efengyl Iesu Grist a

bywyd newydd mewn cymdeithas â'i gilydd fel Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist. A gwell o lawer na chynnwrf tafodau tân a gwynt nerthol i ni heddiw fyddai gweld y ddau beth hyn yn dod yn amlwg yn ein plith. Ie, ceisiwn o'r newydd yr Ysbryd a'i oleuni a'i nerth, er mwyn iddo ein defnyddio i rannu'r newydd da am Iesu Grist yn glir ac yn ffyddlon, ac er mwyn i'r Ysbryd ein bywhau fel cymdeithas ei bobl. Mae'n werth edrych ar y darlun o'r Eglwys Gristnogol ifanc yn Actau 2:43–47 a 4:32–37, er enghraifft.

Ceir yma ddisgrifiadau o'r Eglwys fel cymdeithas o gredinwyr sydd wedi eu huno mewn cariad yn eu haddoliad a'u gwasanaeth i'r Arglwydd Iesu ac i'w gilydd, wedi iddyn nhw ymateb mewn ffydd i'r Efengyl. Mae'n ddarlun byw a phrydferth o'r hyn y gall yr Eglwys fod ym mhob cyfnod. Wrth geisio'r Ysbryd, yr ydym yn ceisio'r Un sy'n medru ein nerthu i gyhoeddi Efengyl Iesu Grist yn ei grym, a'r Un sy'n medru troi criw o bobl yn gymdeithas fyw ei Eglwys.

Gwaith yr Ysbryd yw'r ddau beth: grymuso ein pregethu a bywhau ein heglwysi. A'r peth mwyaf cyffrous i mi am y dyddiau'n dilyn y Pentecost yw'r hyn a welwn yn Actau 2:47, lle dywedir wrthym fod 'yr Arglwydd yn ychwanegu beunydd at y gynulleidfa y rhai oedd yn cael eu hachub'. Os mai dyna sy'n dilyn pregethu grymus ac eglwys fyw, gweddiwn am i'r Ysbryd weithio'n nerthol yn ein plith.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Byddaf yn arwain yr Oedfa Deulu yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch, a'r oedfa am 5.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Hugh Pritchard. Croeso cynnes iddo a diolch am ei wasanaeth.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Dosbarth Beiblaidd

Bydd Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun, am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Mehefin 18.

Hwn fydd y cyfarfod olaf am y tro, a byddwn yn ail gychwyn ar ôl yr haf.

CIC

Cynhaliwyd Cyfarfod nesaf CIC yng Nghilfynydd echnos. Penderfynwyd newid y trefniadau arferol, a chafwyd noson Pitsas a Pheldroed, er mwyn rhoi cyfle i'r hogiau wyllo'r gem gyffrous rhwng Sbaen a'r Iseldiroedd ar y teledu. Cafwyd noson hwyliog, a gobeithio bod pawb wedi mwynhau eu hunain. Roedd ambell un wrth ei fodd am ei fod yn cefnogi'r Iseldiroedd, ond y mwyafrif wedi eu siomi am eu bod eisiau gweld Sbaen yn ennill.


Hysbyseb

Bydd hysbyseb i'w gweld yn y papurau enwadol yr wythnos hon am Olygydd newydd i'r *Pedair Tudalen*.

Mae fy nhymor i fel Golygydd yn dod i ben ddiwedd eleni. Mewn gwirionedd byddaf erbyn hynny, os byw ac iach, wedi bod yn Olygydd am dros chwe blynedd. Pum mlynedd oedd y tymor i fod, ond fy mod i wedi cytuno i wneud 15 mis ychwanegol pan benderfynwyd trafod y posibilrwydd o gael un papur i'r tir enwad sy'n cyhoeddi'r *Pedair Tudalen*. Ddaeth dim o'r drafodaeth honno, ac felly yr un drefn fydd hi i'r Golygydd newydd a benodir ar gyfer dechrau mis Ionawr nesaf. Ond mae dros chwe mis cyfan o rifynnau angen eu gwneud cyn hynny.

Gan ei bod yn Gwpan y Byd, rwy'n mentro cyhoeddi yn Gronyn heddiw yr erthygl oedd gen i yn rhifyn diweddaraf *Y Pedair Tudalen*.

Eiddo'r buddugol



Hen dduwies Roegaidd oedd Nike. A hi, duwies buddugoliaeth, a gynrychiolid yn dal cwpan uwch ei phen ar dlws enwog 'Jules Rimet', a gynlluniwyd gan Ffrancwr o'r enw Abel Lafleur, ac a gyflwynwyd i enillwyr Cwpan Y Byd o ddechrau'r gystadleuaeth yn 1930. Ond nid y tlws hwn a gyflwynir i'r enillwyr ym Mrasil eleni. Enillodd Brasil Gwpan y Byd am y trydydd tro yn 1970, a daeth y tlws gwreiddiol yn eiddo iddyn nhw am byth gan fod Rimet, Llywydd FIFA yn 1930, wedi datgan y byddai'r wlad gyntaf i ennill y gystadleuaeth dair gwaith yn cael cadw'r tlws. Ers 1974, mae'r timau'n ymgiprys am dlws newydd ac arno ddau athletwr buddugoliaethus yn dal y byd uwch eu pennau. Un peth sy'n sicr yw na ddaw'r tlws aur hwn yn eiddo parhaol i'r un o'r gwledydd sy'n cystadlu eleni gan fod hynny wedi ei ddweud pan gafodd ei gyflwyno gyntaf.

Wn i ddim faint ohonom ni Gristnogion sy'n athletwyr gosgeiddig neu dduwiesau hardd! Yr ydym fodd bynnag yn debyg i'r tlysau. Mae enwau'r gwledydd sydd wedi ennill y tlws presennol wedi eu hysgythru oddi tano. Ac mae enw'r Gwardwr a'n prynodd ac a'n henillodd ninnau trwy ei fywyd a'i farwolaeth a'i atgyfodiad amom ninnau. Pobl Iesu Grist ydym, ac fel 'Cristnogion' cawn ein galw wrth ei enw. Ein hymffrost yw ein bod yn eiddo i'r un a'n henillodd.

Ac o'r ddau dlws, rydym yn debycach i dduwies Lafleur nag i athletwyr Gazzaniga. Sbaen yw deiliaid presennol Cwpan y Byd, ond mae tlws Gazzaniga eisoes wedi ei ddychwelyd i FIFA. Dim ond dros dro, am bedair blynedd, y bu'n 'eiddo' i Sbaen. Ond daeth duwies Lafleur yn eiddo parhaol i Brasil. Ac yr ydym ninnau'n eiddo parhaol i Grist. Trwy ffydd, fe ddeuwn yn eiddo iddo, nid dros dro, nid am gyfnod o'n bywyd yn unig, ond am byth. Ein hymffrost yw ein bod yn eiddo parhaol i'r un buddugol.

Ac eto, dydyn ni ddim byd tebyg i'r dduwies, wedi'r cyfan! Ewch i Brasil heddiw, a welwch chi mo honno. Oherwydd ychydig ddyddiau cyn y Nadolig yn 1983 fe gafodd y tlws ei ladrata o Bencadlys Cymdeithas Bêl Droed Brasil yn Rio de Janeiro, a welodd neb mohono ers hynny. Ond does dim peryg i ni gael ein colli o afael Iesu Grist. Unwaith y deuwn i ffydd ynddo, yr ydym yn ddiogel am byth. 'Yr wyf fi'n rhoi bywyd tragwyddol iddynt,' meddai'r Bugail Da am ei ddefaid, '... ac ni chaiff neb eu cipio hwy allan o'm llaw i'. Ein hymffrost yw ein bod yn gwbl ddiogel am byth yng ngafael y Crist buddugol sydd wedi'n cymryd yn eiddo iddo'i hun.

